Cyfarfod Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru
Tŷ Canol, Y Drenewydd
9 Rhagfyr 2011

Yn bresennol:

Aelodau'r Fforwm:

Bryan Owen (Cadeirydd)	Brian Spencer	Olivia Davies
Heather Jones	Phil Taylor	Kim Taylor
John Field	Debbie Crewe	Mike Williams

Staff ac Ymwelwyr

Hannah Jones (Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid)
Chris Ranger (Zurich Insurance)

Ymddiheuriadau

Mr a Mrs Baker	Ann Burton	Mr a Mrs Christopher
Sue Dixon	David Evans (Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd Rheoli)	

1. **Materion Tenantiaid**

Cynhaliodd Tenant Aelodau gyfarfod cyn dechrau'r cyfarfod llawn. Cafwyd y nodiadau dilynol o'r drafodaeth honno gan y Cadeirydd, Bryan Owen.

Trafododd aelodau daliadau gwasanaeth eto, gyda gwybodaeth wedi'i hanfon yn ddiweddar yn hysbysu tenantiaid fod problemau'n dal i fod gyda'r system cyfrifiadur. Hefyd amgaewyd dalen ateb yn gofyn i denantiaid oedd eisiau taliadau gwasanaeth i ateb i'r ddalen. Rydym yn dal i ddisgwyl am gyflenwi ar daliadau gwasanaeth; mae bellach 10 mis yn hwyr.

Roedd trafodaeth am eitemau a anfonir drwy'r post a holl aelodau'r Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr. Cytunwyd y dylai'r HOLL ddogfennau a anfonir drwy'r post gael eu e-bostio at holl aelodau'r Fforwm. Gofynnodd un aelod pam fod Tai Canolbarth Cymru yn araf wrth beidio ceisio gostwng costau postio ac anfon mwy o bethau drwy e-bost.

Gofynnodd un aelod beth sy'n digwydd i "ffeirio tŷ" gan y gofynnwyd hyn yng nghyfarfod mis Awst dros 4 mis yn ôl.

Holodd un aelod am gost rhedeg gwresogydd storio gan ddweud fod ei drydan yn costio o leiaf £35 yr wythnos. Trafododd ynglyn a cael trydanwyr allan i wirio ei wresogydd. Dangosodd y trydanwyr bod yr elfen ty mewn i'r wresogydd wedi torri. Torrodd y rhannau oedd heb ei dorri yn y lle gyntaf wrth ei symud nhw. O ganlyniad cafodd gwresogydd newydd ei ordro a mae'n gweithio'n iawn.
Ar pwnc rhedeg y gwresogion – dywedodd y trydanwyr bod yr aelod yn rhedeg y gwresogion yn anghywir. Ail osododd i redeg yn mwy economaidd. Mae nhw nawr yn gweithio'n andros o dda a daeth y pris rhedeg lawr of £35 y.w i £12 y.w.

Gofynnodd yr aelod os oedd yna posibilrwydd o gael rhywun – efaillau o “Celtic Developments” i ysgrifennu allan sut i paratoi y gwresogyddion fel y maent yn rhedeg mor economaidd a sy’n bosib.

Roedd trafodaeth ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Hoffai aelodau i'r heddlu, Rash a Graham ddod i gyfarfod yn y dyfodol i ddiweddaru o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd gyda hwy.

Holodd aelodau hefyd pam nad oedd unrhyw aelod o'r Fforwm wedi cael hyfforddiant ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cytunwyd y rhai oedd yn bresennol i ofyn am hyfforddiant o'r fath yn y dyfodol.

Gyda'r teithiau stad yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd, gofynnodd aelodau am adroddiad neu gynllun gweithredu ar stadau yr ymwelwyd â hwy, a’r wybodaeth ar gael ar wefan Tai Canolbarth Cymru. Dywedodd un aelod y byddai'n fanteisiol cymharu teithiau stad.

Dywedodd y cadeirydd wrth aelodau am edrych ar dudalen gwefan "SARH", teithiau stad, cynllun gweithredu gan fod llawer o wybodaeth yno.

Gohebiaeth
Derbyniwyd llythyr gan Mrs Christopher ar gyfer aelodau FfTaP. Darllenwyd hyn yn ystod Materion Tenantiaid a rhoddwyd i Hannah Jones yn hwyrach. Ysgrifennodd Mrs Christopher at yr aelodau i adael nhw gwybod pan nad oedd hi am fynychu mwy o gyfarfodydd : Ar ol trafodaeth rhwng Hannah a’r Rheolydd CASS ac ar ol derbyn cytundeb gan Cadeirydd FfTaP, anfonwyd 1 set o gyfnodion i denantiaid – yn lle y 3 set oedd wedi cael ei cytuno. Roedd y penderfyniad hyn wedi cael ei cymeryd er mwyn cadw costiau post i lawr. Ond ni chafodd llythyr ei anfon allan gyda’r cofnodion yma i egluro i denantiaid beth oedd pwrpas y cofnodion. Teimlodd Mrs Christopher bod y penderfyniad hyn yn anghywir a ni ddyle wedi digwydd heb cytundeb holl aelodau FfTaP.

Dechrau'r cyfarfod llawn

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Aethpwyd drwy gofnodion cyfarfod mis Hydref am gywirdeb. Ymddiheurodd Hannah am beidio cynnwys y nodiadau ar y sesiwn materion Tenantiaid a gynhaliwyd cyn y cyfarfod llawn. Dosbarthodd y rhain ymysg aelodau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at welliant ar dudalen 8 y cofnodion. Nid oedd wedi derbyn 4 adroddiad CCB yn y post, ond mewn gwirionedd wedi derbyn 3 yn y post a'r 4ydd yn CCB y Gymdeithas. Dywedodd aelod arall y digwyddodd hyn iddynt hwythau hefyd.

Roedd Hannah hefyd wedi derbyn y gwelliannau dilynol i'r cofnodion gan Ann Burton drwy e-bost:-

Tudalen 1, Eitem 3 - Par llythyr David Churm am gadw cŵn yn Pine Court. Codwyd hyn 3 chyfarfod yn ôl ac ni anfonwyd unrhyw lythyrau hyd yma.

Tudalen 5, Eitem 6 - roedd Ann wedi gofyn i'r Gymdeithas gadw at y penderfyniad a wnaeth ychydig flynyddoedd yn ôl fod enw'r awdur ar bob dogfen, p'un ai oedd yr awdur wedi gadael y Gymdeithas ers hynny ai peidio. Roedd y grŵp wedi penderfynu bod hyn yn ffordd gywir o gofnodi pethau. Roedd Phil Williams wedi cytuno gwneud y newidiadau hyn i'r gweithdrefnau cwynion ac iawndal.

3. Materion yn Codi

Aethpwyd drwy'r ddalen materion yn codi er cywirdeb a rhoddwyd y diweddariadau dilynol:

- Awgrymodd Oli fod y Gymdeithas yn ystyried tanysgrifio i gronfa ddata cyd-gyfnewid ar-lein "homeswapper". Pe gwnâi'r Gymdeithas hynny, gallai'r tenantiaid ddefnyddio'r cyfleuster am ddim.
- Rhoddodd y Cadeirydd lyfryn gan y Swyddfa Masnachu Teg ar chwalu sgamiau. Mae cyfeiriad gwefan yn y llyfryn lle gall pobl roi adroddiad am sgamiau a hefyd rif ffôn llinell gymorth ffôn. Bydd Hannah yn rhoi'r ddau yng nghylchlythyr y Gymdeithas.
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol - Gofynnodd aelodau am i Rashmita Wharton a Graham Jennins o orsaf heddlu'r Drenewydd fynychu cyfarfod unwaith eto. Credai aelodau hefyd y byddai'n syniad da cael hyfforddiant ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, efallai drwy WTF. Trafodwyd hefyd y gallai ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn faes i Archwilwyr Gwasanaeth edrych arno yn y dyfodol.
- Siaradodd y Cadeirydd am rai syniadau i ddatblygu teithiau stad y Gymdeithas. Awgrymodd bod aelodau'n edrych ar wefan Staffordshire and Rural Homes gan fod ganddynt nodiadau manwl ar yr hyn a wnânt ar deithiau stad, a alwant yn "Gynlluniau Gweithredu/Action Plans". Dywedodd Hannah y byddai'n hysbysu'r tîm tai am hyn i weld beth oedd eu barn am ddull Staffordshire o gynnal teithiau stad.

4. Hannah Jones – Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid

<u>Hen gyfrifiaduron</u>

Esboniodd Hannah fod y Gymdeithas newydd gael rhai cyfrifiaduron newydd a bod y Gymdeithas wedi cynnig yr hen gyfrifiaduron i grwpiau cymunedol lleol y tro diwethaf y digwyddodd hyn. Y tro hwn, hoffai'r Gymdeithas gynnig yr hen gyfrifiaduron i'w thenantiaid. Gofynnodd Hannah i aelodau'r Fforwm os oedd angen cyfrifiadur arnynt neu os gwyddent am denantiaid eraill a allai fod angen un. Esboniodd fod gan y Gymdeithas fwy na deg o gyfrifiaduron i'w rhoi ond gan y byddai'r cyfrifiaduron yn rhoddion, na fyddai cefnogaeth yn y dyfodol pe byddent yn torri.

Gofynnodd Brian Spencer a Debbie Crewe am gyfrifiaduron a gwnaeth Brian Owen gais am un ar ran un o'i gymdogion. Mae hefyd blentyn tenant sy'n defnyddio'r Ystafell Adnoddau yn Nhŷ Canol i wneud ei waith cartref. Awgrymodd staff y

Gymdeithas y dylid cynnig cyfrifiadur iddo. Cytunodd aelodau y byddai hyn yn beth clên i'w wneud. Nododd y Cadeirydd yn ddiweddarach na ddylai'r unigolyn gael ei wrthannog rhag defnyddio'r ystafell adnoddau tenantiaid pan gynigid y cyfrifiadur iddo. Cytunodd Hannah. Gofynnodd Hannah i aelodau gysylltu â hi os clywyd am unrhyw denant sydd angen cyfrifiadur.

Circus Berzercus

Yn ystod hanner tymor mis Chwefror, bydd Cymdeithas Tai a Chanolbarth Cymru a Chymdeithas Tai Newydd yn cynnal digwyddiad adloniant ar y cyd ar gyfer plant yn seiliedig ar thema syrcas. Mae hyn yn bosibl oherwydd cymorth Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd 100 tocyn ar gyfer y digwyddiad a gaiff eu rhannu'n gyfartal rhwng Tai Canolbarth Cymru a Newydd. Mae hyn yn golygu y bydd Hannah yn rhoi 50 tocyn i denantiaid a all fynychu'r digwyddiad am ddim. Dyddiad "Circus Berzercvus" yw dydd Iau 16 Chwefror ac fe'i cynhelir yn Eglwys Gobaith, Y Drenewydd am 2pm. Caiff tenantiaid eu hysbysu drwy'r post yn y Flwyddyn Newydd. Dymunai Debbie, Phil a Kim archebu tocynnau ymlaen llaw. Nododd Hannah hyn.

Cyrhaeddodd Chris Ranger o Zurich Insurance ar y pwynt hwn ac felly gohiriwyd trafodaeth Hannah. Gadawodd John Field a Brian Spencer y cyfarfod ar y pwynt hwn.

5. **Chris Ranger (Zurich Insurance) – Yswiriant Cynnwys Tenantiaid.**

Esboniodd Chris Ranger mai dim ond 10% o denantiaid yn y Deyrnas Unedig sydd ag yswiriant cynnwys. Mae cost yswiriant o'r fath tua £50-£60 ar gyfartaledd. Mae gan Zurich opsiwn £12 y flwyddyn sy'n rhoi gwerth hyd at £2,000 o sicrwydd. Maent hefyd yn cynnig polisi sydd yn £15 y flwyddyn i roi hyd at £5,000 o sicrwydd.

Mae'r yswiriant yn cynnwys difrod gan bethau fel tân, ffrwydradau, llifogydd, stormydd a dŵr yn dianc. Mae gordal o £100 os caiff y difrod ei achosi gan ddŵr.

Byddai popeth a gâi ei ddifrodi yn cael ei amnewid ar sail hen am newydd, felly er enghraifft pe byddai hen garped yn cael ei ddifrodi, byddid yn cael carped newydd yn lle.

Gofynnodd Debbie os oedd sicrwydd mwy cynhwysfawr ar gyfer tenantiaid. Esboniodd Chris Ranger fod Zurich wedi cynnwys sicrwydd mwy cynhwysfawr yn y gorffennol ond y rhoddwyd y gorau i hynny oherwydd diffyg galw. Maent yn awr yn canolbwyntio ar y cynlluniau syml rhatach a amlinellir uchod.

Gofynnodd Oli sut y bwriadai Zurich adael i denantiaid wybod fod y sicrwydd hwn ar gael. Ychwanegodd Debbie fod cymdeithasau tai eraill yn ychwanegu yswiriant at rent y tenant. Esboniodd Chris Ranger y byddai'n gweithio'n agos gyda staff Tai Canolbarth Cymru i ledaenu'r wybodaeth i denantiaid a gweld sut y telid yr yswiriant.

Dywedodd Oli y byddai'n bwysig ei gwneud yn glir i denantiaid mai Zurich ac nid Tai Canolbarth Cymru fyddai'n delio gyda'r yswiriant er mwyn arbed galwadau ffôn diangen i'r swyddfa am yswiriant.

Cytunodd yr aelodau oedd yn bresennol fod cynnig yswiriant cynnwys i denantiaid yn syniad da. Dywedodd Chris Ranger y byddai'n cysylltu gyda Maureen Woosnam (Cydlynydd Gwybodaeth a Pherfformiad) Tai Canolbarth Cymru i drafod sut i ddatblygu hyn. Byddai Hannah hefyd yn rhoi'r wybodaeth yn y cylchlythyr ar gyfer tenantiaid unwaith y datblygwyd cynllun gweithredu.

Diolchodd y Cadeirydd i Chris Ranger ac yna gadawodd Chris y cyfarfod. Ailymunodd Brian Spencer a John Field â'r cyfarfod. Dymunai John Field i'r cofnodion ddweud, er ei fod yn hapus i fynychu cyfarfodydd a rhoi ei amser, ei fod yn gwrthwynebu'n gryf gael ei orfodi i wrando ar rywun a deimlai oedd yn gwerthu yswiriant.

Teimlai Hannah mai diben Chris Ranger oedd rhoi gwybodaeth am y polisïau sydd ar gael fel y gallai'r Fforwm drafod fel grŵp o gynrychiolwyr tenantiaid p'un ai a deimlent fod yr hyn oedd ganddo i'w ddweud yn syniad da ar gyfer yr holl denantiaid yn gyffredinol.

4. (Parhad)……

Parhaodd Hannah â'i thrafodaeth ar Gyfranogiad Tenantiaid.

<u>Gwersyll Gweithredu</u>

Roedd cyfle i anfon tenantiaid ifanc i wersylla dros yr haf gyda chwmni o'r enw Cymry Ifanc. Roedd hefyd yn gyfle iddynt ddysgu am ymddygiad gwrthgymdeithasol, maeth, cynhwysiant ariannol a chymorth cyntaf. Mae hyn yn arwain at achrediad y gellir ei gyfrif fel pwyntiau UCAS ar geisiadau prifysgol.

Teimlai Hannah y byddai hyn yn ffordd wirioneddol dda i gael tenantiaid iau i ymwneud gyda'r Gymdeithas gan y gall y gwersyll eu harwain i fod eisiau gwneud pethau eraill gyda'r Gymdeithas.

Dywedodd Oli y byddai'n cynnwys rhieni'r bobl ifanc hefyd.

Cytunodd yr aelodau mewn egwyddor fod y syniad yn un da ond yr oeddent braidd yn bryderus am y gost. Hoffai Hannah i'r cyfle fod ar gael i 15 tenant ifanc rhwng 11-18 oed ond credai y gallai'r gost fod tua £4000 am 3 diwrnod o wersylla. Gofynnodd aelodau am ffigur pendant cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Gofynnodd Hannah, os penderfynai aelodau i beidio gwario arian ar y gwersyll bod aelodau'n meddwl am ffyrdd eraill i gael tenantiaid ifanc i gymryd rhan. **(Holwyd am y gwir ffigur ac mae cost y gwersyll 3 diwrnod yn £149 y person, cyfanswm o £2235).**

<u>Cyllideb Cyfranogiad Tenantiaid</u>

Llifodd y sgwrs yn naturiol i un am y gyllideb cyfranogiad tenantiaid a lle hoffai aelodau wario arian. Roedd cytundeb cyffredinol yr hoffai aelodau'r Fforwm gymryd rhan mewn mwy o gyrsiau hyfforddiant a mynd ar ymweliadau astudio i gymdeithasau tai eraill. Soniodd y Cadeirydd y byddai ef yn hoffi ymweld yn arbennig â Staffordshire and Rural Homes i fynd o amgylch gyda swyddogion ar eu teithiau stad.

6. **Unrhyw Fater Arall**

- Esboniodd Debbie fod problem yn parhau gyda mynediad 24 awr i gerbydau wrth y fynedfa i'w stad. Er bod y Cyngor wedi gosod bar-H ychydig flynyddoedd yn ôl, teimlid nad oedd hyn yn ddigon mawr gan fod cerbydau'n dal i barcio wrth y fynedfa gan ei gwneud yn amhosibl i gerbydau mwy i fynd i mewn i'r stad. Bu digwyddiad diweddar lle galwyd ambiwlans. Teimlai Debbie y gallai'r mater gael canlyniadau difrifol pe na fyddai gweithredu. Nid oedd Hannah yn sicr os gallai'r Gymdeithas wneud unrhyw beth am y sefyllfa ac awgrymodd gysylltu gyda'r cyngor eto. Dywedodd y byddai hefyd yn gofyn i'w chydweithwyr os gellid gwneud unrhyw beth.

- Gofynnodd y Cadeirydd am i'r Fforwm gael gweld a chymeradwyo'r holl gofnodion cyn iddynt fynd i gyfarfodydd Bwrdd. Cytunodd Hannah mai dyma'r peth cywir i'w wneud. Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 25 Ionawr. Gan nad oes cyfarfod o'r Fforwm cyn hynny, bydd Hannah yn anfon cofnodion y cyfarfod hwn cyn hynny ac yn anfon am unrhyw welliannau i gael ei hanfon ati i'w gwneud yn bosibl i'r cofnodion fynd i'r Bwrdd gyda chymeradwyaeth y Fforwm.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener 3 Chwefror 9.45am Tŷ Canol